CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2007 Rhif 728 (Cy.64)

TRIBIWNLYSOEDD AC YMCHWILIADAU, CYMRU

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Rheoliadau Ymchwiliadau Lleol, Ymchwiliadau Cymwys a Gweithdrefnau Cymwys (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2007

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys pan fo Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") wedi'i awdurdodi i adennill oddi wrth awdurdodau lleol gostau y mae wedi'u tynnu mewn cysylltiad:

(a) ag ymchwiliadau a gynhelir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (gan gynnwys ymchwiliadau gorchymyn prynu gorfodol, y cymhwysir darpariaethau perthnasol Deddf 1972 iddynt gan Ddeddf Caffael Tir 1981) a Deddf Draenio Tir 1991 ("Ymchwiliadau Lleol");

(b) ag ymchwiliadau cymwys fel y'u diffinnir gan adran 303A(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (ymchwiliadau a gynhelir mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Unedol ac ystyriaeth o wrthwynebiadau i gynlluniau parth cynllunio syml) ("Ymchwiliadau Cymwys"); ac

(c) â gweithdrefnau cymwys fel y'u diffinnir gan adran 303A(1A) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (archwiliadau annibynnol a gynhelir mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Lleol ac ystyriaeth o wrthwynebiadau i gynlluniau parth cynllunio syml)("Gweithdrefnau Cymwys").

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2007 No. 728 (W.64)

TRIBUNALS AND INQUIRIES, WALES

TOWN AND COUNTRY PLANNING, WALES

The Local Inquiries, Qualifying Inquiries and Qualifying Procedures (Standard Daily Amount) (Wales) Regulations 2007

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations apply where the National Assembly for Wales ("the National Assembly") is authorised to recover from local authorities costs borne by it in connection with:

(a) inquiries held under the Local Government Act 1972 (including compulsory purchase order inquiries, to which relevant provisions of the 1972 Act are applied by the Acquisition of Land Act 1981) and the Land Drainage Act 1991 ("Local Inquiries");

(b) qualifying inquiries as defined by Section 303A(1) of the Town and Country Planning Act 1990 (inquiries held in relation to Unitary Development Plans and consideration of objections to simplified planning zone schemes) ("Qualifying Inquiries"); and

(c) qualifying procedures as defined by Section 303A(1A) of the Town and Country Planning Act 1990 (independent examinations held in relation to Local Development Plans and consideration of objections to simplified planning zone schemes)("Qualifying Procedures").

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r symiau dyddiol safonol y gellir eu hadennill gan y Cynulliad Cenedlaethol am bob dydd-

(a) y bydd Ymchwiliad Lleol yn eistedd neu y bydd y person a benodwyd i gynnal yr Ymchwiliad Lleol wrthi mewn ffordd arall yn gwneud gwaith sy'n gysylltiedig â'r Ymchwiliad Lleol; neu

(b) y bydd y person a benodwyd i gynnal Ymchwiliad Cymwys neu, yn ôl y digwydd, Gweithdrefn Gymwys wrthi'n cynnal yr Ymchwiliad Cymwys neu'r Weithdrefn Gymwys, neu wrthi mewn ffordd arall yn gwneud gwaith sy'n gysylltiedig â'r Ymchwiliad Cymwys neu â'r Weithdrefn Gymwys.

Y swm dyddiol safonol mewn perthynas ag Ymchwiliadau Lleol sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2007 neu ar ôl hynny yw £722. Mae'r swm hwn yn disodli'r swm o £645, a ragnodwyd gan Reoliadau Ffioedd Ymchwiliadau (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/2780) (Cy.264) ("Rheoliadau 2002") ar gyfer ymchwiliadau'n cychwyn ar 1 Ebrill 2003 neu ar ôl hynny.

Y swm dyddiol safonol mewn perthynas ag Ymchwiliadau Cymwys yn cychwyn ar 1 Ebrill 2007 neu ar ôl hynny yw £679. Yr un yw'r swm hwn â'r swm a ragnodwyd yn flaenorol gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/371) (Cy.35) ("Rheoliadau 2005") ar gyfer Ymchwiliadau Cymwys yn cychwyn ar 1 Ebrill 2005 neu ar ôl hynny.

Y swm dyddiol safonol mewn perthynas â Gweithdrefnau Cymwys yw £640. Dyma'r tro cyntaf i swm dyddiol safonol gael ei ragnodi ar gyfer Gweithdrefnau Cymwys.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu'r darpariaethau mewn perthynas â symiau dyddiol safonol yn Rheoliadau 2002 a Rheoliadau 2005, ond maent yn cynnwys arbedion mewn cysylltiad ag Ymchwiliadau Lleol ac Ymchwiliadau Cymwys a gychwynnodd cyn 1 Ebrill 2007 ac sy'n parhau.

These Regulations prescribe the standard daily amounts which may be recovered by the National Assembly for each day on which-

(a) a Local Inquiry sits or the person appointed to hold the Local Inquiry is otherwise engaged on work connected with it; or

(b) the person appointed to hold a Qualifying Inquiry or, as the case may be, a Qualifying Procedure is engaged in the holding of, or otherwise engaged on work connected with, the Qualifying Inquiry or Qualifying Procedure

The standard daily amount in relation to Local Inquiries opening on or after 1 April 2007 is £722. This replaces the amount of £645, which was prescribed by the Fees for Inquiries (Standard Daily Amount) (Wales) Regulations 2002 (S.I. 2002/2780) (W.264) ("the 2002 Regulations") for inquiries opening on or after 1 April 2003.

The standard daily amount in relation to Qualifying Inquiries opening on or after 1 April 2007 is £679. This is the same as the amount previously prescribed by the Town and Country Planning (Costs of Inquiries etc.) (Standard Daily Amount) (Wales) Regulations 2005 (S.I. 2005/371) (W.35) ("the 2005 Regulations") for Qualifying Inquiries opening on or after 1 April 2005.

The standard daily amount in relation to Qualifying Procedures is £640. This is the first time a standard daily amount has been prescribed for Qualifying Procedures.

These Regulations revoke the provisions relating to standard daily amounts in the 2002 Regulations and the 2005 Regulations, but include savings in respect of Local Inquiries and Qualifying Inquiries which opened before 1 April 2007 and which remain open.

2007 Rhif 728 (Cy.64)

TRIBIWNLYSOEDD AC YMCHWILIADAU, CYMRU

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Rheoliadau Ymchwiliadau Lleol, Ymchwiliadau Cymwys a Gweithdrefnau Cymwys (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2007

Wedi'u gwneud	*6 Mawrth 2007*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd-

(a) gan adran 42(4) o Ddeddf Tai a Chynllunio 1986(**1**) i unrhyw Weinidog a awdurdodwyd, o dan neu yn rhinwedd y darpariaethau statudol hynny a bennir yn adran 42(1)(**2**) o'r Ddeddf honno neu y cymhwysir yr adran honno iddynt(**3**), i adennill costau a dynnir gan y Gweinidog mewn perthynas ag ymchwiliad,

(**1**) 1986 p.63.

(**2**) Diddymwyd adran 42(1)(b) gan Ran I o Atodlen 3 i Ddeddf Cydgyfnerthu Dŵr (Darpariaethau Canlyniadol) 1991 (p.60) a diddymwyd adran 42(1)(d) gan Ran II o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42). Diddymwyd adran 129(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (p.27) (costau ymchwiliad o dan y Ddeddf honno), y mae adran 42(1)(c) o Ddeddf Tai a Chynllunio 1986 yn cyfeirio ati, gan Atodlen 3 i Ddeddf Ymchwiliadau 2005 (p.12).

(**3**) Mae adran 69(7) o Ddeddf Draenio Tir 1991 (p.59) yn darparu bod adran 42 o Ddeddf Tai a Chynllunio 1986 yn gymwys pan fydd y naill neu'r llall o "the Ministers" wedi'i awdurdodi'n briodol i adennill costau a dynnwyd gan y Gweinidog hwnnw fel y mae'n gymwys pan fydd Gweinidog wedi'i awdurdodi felly yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad a bennir yn adran 42(1) o Ddeddf 1986. Mae adran 69(5) o Ddeddf 1991 yn awdurdodi'r naill neu'r llall o "the Ministers", h.y. yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (gweler adran 72(1) o Ddeddf 1991 a Gorchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794) am diffiniad o "the Ministers") i adennill costau a dynnir gan y Gweinidog hwnnw mewn perthynas ag ymchwiliad a gynhelir gan y Gweinidog. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo.

2007 No. 728 (W.64)

TRIBUNALS AND INQUIRIES, WALES

TOWN AND COUNTRY PLANNING, WALES

The Local Inquiries, Qualifying Inquiries and Qualifying Procedures (Standard Daily Amount) (Wales) Regulations 2007

Made	*6 March 2007*
Coming into force	*1 April 2007*

The National Assembly for Wales ("the National Assembly") makes the following Regulations in exercise of the powers conferred-

(a) by section 42(4) of the Housing and Planning Act 1986(**1**) on any Minister authorised, under or by virtue of those statutory provisions specified in section 42(1)(**2**) of that Act or to which that section is applied(**3**), to recover costs incurred by the Minister in relation to an inquiry, which powers are now exercisable by

(**1**) 1986 c.63.

(**2**) Section 42(1)(b) was repealed by Part I of Schedule 3 to the Water Consolidation (Consequential Provisions) Act 1991 (c.60) and section 42(1)(d) was repealed by Part II of Schedule 12 to the Local Government and Housing Act 1989 (c.42). Section 129(1)(d) of the Road Traffic Regulation Act 1984 (c.27) (costs of inquiry under that Act), to which section 42(1)(c) of the Housing and Planning Act 1986 refers, was repealed by Schedule 3 to the Inquiries Act 2005 (c.12).

(**3**) Section 69(7) of the Land Drainage Act 1991 (c.59) provides that section 42 of the Housing and Planning Act 1986 applies where either of "the Ministers" is duly authorised to recover costs incurred by that Minister as it applies where a Minister is so authorised by virtue of any enactment specified in section 42(1) of the 1986 Act. Section 69(5) of the 1991 Act authorises either of "the Ministers", i.e. the Secretary of State or the Minister of Agriculture, Fisheries and Food (see section 72(1) of the 1991 Act and the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food (Dissolution) Order 2002 (S.I. 2002/794) for the definition of "the Ministers") to recover costs incurred by that Minister in relation to an inquiry held by the Minister. The powers of the Secretary of State were transferred, in so far as exercisable in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

sef pwerau sy'n arferadwy bellach gan y Cynulliad Cenedlaethol(**1**) o ran Cymru;

(b) i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 303A(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990")(**2**) fel y'i mewnosodir yn Neddf 1990 gan adran 1(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) 1995(**3**), sef pwerau sy'n arferadwy bellach, o ran ardaloedd awdurdodau cynllunio lleol penodol o fewn Cymru(**4**), gan y Cynulliad Cenedlaethol(**5**); ac

(c) i'r Cynulliad Cenedlaethol, fel yr awdurdod priodol, gan adran 303A(5) o Ddeddf 1990 fel y'i diwygiwyd mewn perthynas ag ardaloedd awdurdodau cynllunio lleol penodol o fewn Cymru(**6**) gan adran 118(1) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ("Deddf 2004") a pharagraff 11 o Atodlen 6 iddi(**7**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ymchwiliadau Lleol, Ymchwiliadau Cymwys a Gweithdrefnau Cymwys (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2007 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) Mae Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253 (Cy.5)) ac Atodlen 1 iddo, yn darparu i bwerau Gweinidog o dan adran 42 o Ddeddf Tai a Chynllunio 1986 fod yn arferadwy, o ran Cymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol ag unrhyw un o Weinidogion y Goron y maent yn arferadwy ganddo.

(**2**) 1990 p.8.

(**3**) 1995 p.49.

(**4**) *Gweler* y troednodyn i'r diffiniad o "ymchwiliad cymwys" yn rheoliad 2.

(**5**) Trosglwyddwyd swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac maent bellach yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000, erthygl 4; *gweler* y cofnod am Ddeddf 1990 yn Atodlen 3 i Orchymyn 2000.

(**6**) *Gweler* y troednodyn i'r diffiniad o " ymchwiliad cymwys" yn rheoliad 2.

(**7**) 2004 p.5.

the National Assembly(**1**) in relation to Wales;

(b) upon the Secretary of State by section 303A(5) of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act")(**2**) as inserted into the 1990 Act by section 1(1) of the Town and Country Planning (Costs of Inquiries etc) Act 1995(**3**) and now exercisable, in relation to the areas of certain local planning authorities within Wales(**4**), by the National Assembly(**5**); and

(c) upon the National Assembly, as the appropriate authority, by section 303A(5) of the 1990 Act as amended in relation to the areas of certain local planning authorities within Wales(**6**) by section 118(1) of, and paragraph 11 of Schedule 6 to, the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 ("the 2004 Act")(**7**).

Title, commencement and application

1.-(1) The title of these Regulations is the Local Inquiries, Qualifying Inquiries and Qualifying Procedures (Standard Daily Amount) (Wales) Regulations 2007 and they come into force on 1 April 2007.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(**1**) Article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2000 (S.I. 2000/253 (W.5)) provides for the powers of a Minister under section 42 of the Housing and Planning Act 1986 to be exercisable, in relation to Wales, by the National Assembly for Wales concurrently with any Minister of the Crown by whom they are exercisable.

(**2**) 1990 c.8.

(**3**) 1995 c.49.

(**4**) *See* the footnote to the definition of "qualifying inquiry" in regulation 2.

(**5**) The relevant functions of the Secretary of State were transferred, so far as exercisable in relation to Wales, to the National Assembly by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and are now exercisable by the National Assembly pursuant to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2000, article 4; *see* the entry for the 1990 Act in Schedule 3 to the 2000 Order.

(**6**) *See* the footnote to the definition of "qualifying inquiry" in regulation 2.

(**7**) 2004 c.5.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "gweithdrefn gymwys" yw gweithdrefn gymwys o fewn yr ystyr sydd i'r term "*qualifying procedure*" yn adran 303A(1A) o Ddeddf 1990(**1**), ac a gynhelir mewn perthynas â'r ardal awdurdod cynllunio lleol y mae'r diddymiadau a geir yn Atodlen 1 i Orchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 6, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005 yn effeithiol mewn cysylltiad ag ef yn unol ag erthygl 2(g) o'r Gorchymyn hwnnw;

ystyr "ymchwiliad cymwys" yw ymchwiliad cymwys o fewn yr ystyr sydd i'r term "*qualifying inquiry*" yn adran 303A(1) o Ddeddf 1990 (i'r graddau y mae'r adran honno'n parhau i fod ag effaith heb y diwygiad a fewnosodir gan adran 118 o Ddeddf 2004, a pharagraff 11(2) o Atodlen 6 iddi), ac a gynhelir mewn perthynas ag ardal awdurdod cynllunio lleol y mae'r darpariaethau a geir yn Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 6, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005(**2**) yn parhau i fod yn effeithiol mewn cysylltiad ag ef yn unol ag erthygl 3(3) o'r Gorchymyn hwnnw;

ystyr "ymchwiliad lleol" ("*local inquiry*") yw ymchwiliad y mae gan y Cynulliad Cenedlaethol hawl i adennill ei gostau mewn perthynas ag ef a hynny o dan neu yn rhinwedd adran 250(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**3**) (darpariaeth gyffredinol o ran costau ymchwiliadau) neu o dan adran 69(5) o Ddeddf Draenio Tir 1991 (costau ymchwiliad o dan y Ddeddf honno).

Interpretation

2. In these Regulations-

"local inquiry" means an inquiry in relation to which the National Assembly is entitled to recover its costs under or by virtue of section 250(4) of the Local Government Act 1972(**1**) (general provision as to costs of inquiries) or section 69(5) of the Land Drainage Act 1991 (costs of an inquiry under that Act);

"qualifying inquiry" means a qualifying inquiry within the meaning of that term in section 303A(1) of the 1990 Act (insofar as that section continues to have effect without the amendment inserted by section 118 of, and paragraph 11(2) of Schedule 6 to, the 2004 Act) and held in relation to the area of a local planning authority in respect of which the provisions set out in Schedule 2 to The Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (Commencement No. 6, Transitional Provisions and Savings) Order 2005(**2**) continue to have effect in accordance with article 3(3) of that Order;

"qualifying procedure" means a qualifying procedure within the meaning of that term in section 303A(1A) of the 1990 Act(**3**) and held in relation to the area of a local planning authority in respect of which the repeals set out in Schedule 1 to The Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (Commencement No. 6, Transitional Provisions and Savings) Order 2005 have effect in accordance with article 2(g) of that Order.

(**1**) Mewnosodwyd adran 303(1A) yn Neddf 1990 gan adran 118 o Ddeddf 2004 a pharagraff 11 o Atodlen 6 iddi.

(**2**) O.S.2005/2847 (C.118). Drwy erthygl 2(e) o'r Gorchymyn, daeth y diwygiad i adran 303A o'r Ddeddf a wnaed gan Ddeddf 2004 i rym o ran Cymru ar 12 Hydref 2005. Er hynny, drwy erthygl 3(3) o'r Gorchymyn hwnnw, mae darpariaethau adran 303A fel y'i mewnosodir gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) 1995 yn parhau i fod mewn grym mewn perthynas â'r ardaloedd awdurdodau cynllunio lleol y mae'r darpariaethau yn y Ddeddf 1990 sy'n ymwneud â pharatoi, newid a rhoi cynlluniau datblygu unedol newydd yn lle hen rai yn parhau i fod yn gymwys. Effaith gyffredinol y darpariaethau niferus y cyfeirir atynt uchod yw, pan fydd awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru yn ddarostyngedig i gyfundrefn y cynllun datblygu lleol cynhelir archwiliad annibynnol a bydd gan y Cynulliad Cenedlaethol bŵer i ragnodi swm dyddiol safonol mewn perthynas ag ef. Pan fydd awdurdod cynllunio lleol yn parhau i fod yn ddarostyngedig i gyfundrefn y cynllun datblygu unedol, fodd bynnag, cynhelir ymchwiliad lleol, pan fydd yn briodol, a bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn parhau i fod â phŵer i ragnodi swm dyddiol safonol mewn perthynas ag ef.

(**3**) 1972 p.70.

(**1**) 1972 c.70.

(**2**) S.I. 2005/2847 (C.118). By article 2(e) of the Order, the amendment of section 303A of the Act made by the 2004 Act came into force in relation to Wales on 12 October 2005. However, by article 3(3) of that Order, the provisions of section 303A as inserted by the Town and Country Planning (Costs of Inquiries etc) Act 1995 remain in force in relation to the areas of local planning authorities to whom the provisions in the 1990 Act relating to the preparation, alteration and replacement of unitary development plans continue to apply. The general effect of the several provisions referred to above is that where a local planning authority in Wales is subject to the local development plan regime, an independent examination will be held and the National Assembly will have power to prescribe a standard daily amount in relation to it. Where a local planning authority continues to be subject to the unitary development plan regime, however, a local inquiry will, where appropriate, be held and the National Assembly will continue to have power to prescribe a standard daily amount in relation to it.

(**3**) Section 303(1A) was inserted into the 1990 Act by section 118 of, and paragraph 11 of Schedule 6 to, the 2004 Act.

Y personau, yr ymchwiliadau a'r gweithdrefnau y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt

3. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran-

(a) ymchwiliad lleol;

(b) unrhyw berson sydd wedi'i benodi gan y Cynulliad Cenedlaethol i gynnal ymchwiliad cymwys, neu wedi'i benodi fel unrhyw un o'r personau a benodwyd felly ac sydd i gynnal ymchwiliad cymwys; ac

(c) unrhyw berson sydd wedi'i benodi gan y Cynulliad Cenedlaethol i gynnal gweithdrefn gymwys.

Y swm dyddiol safonol ar gyfer ymchwiliadau lleol

4. Y swm dyddiol safonol a ragnodir yn unol ag adran 42(4) o Ddeddf Tai a Chynllunio 1986(**1**) ar gyfer ymchwiliad lleol yn cychwyn ar 1 Ebrill 2007 neu ar ôl hynny yw £722.

Y swm dyddiol safonol ar gyfer ymchwiliadau cymwys

5. Y swm dyddiol safonol a ragnodir yn unol ag adran 303A(5) o Ddeddf 1990 ar gyfer ymchwiliad cymwys yn cychwyn ar 1 Ebrill 2007 neu ar ôl hynny yw £679.

Y swm dyddiol safonol ar gyfer gweithdrefnau cymwys

6. Y swm dyddiol safonol a ragnodir yn unol ag adran 303A(5) o Ddeddf 1990 ar gyfer gweithdrefn gymwys yn cychwyn ar 1 Ebrill 2007 neu ar ôl hynny yw £640.

Dirymiadau ac arbedion

7.-(1) Dirymir Rheoliadau Ffioedd Ymchwiliadau (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2002(**2**) ac eithrio mewn perthynas ag ymchwiliad yr oedd y Rheoliadau hynny 'n gymwys iddo ac a gychwynnodd cyn 1 Ebrill 2007 ac sy'n parhau wedi'r dyddiad hwnnw.

(2) Dirymir Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2005(**3**) ac eithrio mewn perthynas ag ymchwiliad cymwys yr oedd y Rheoliadau hynny yn gymwys iddo ac a gychwynnodd cyn 1 Ebrill 2007 ac sy'n parhau wedi'r dyddiad hwnnw.

(**1**) 1986 p.63.

(**2**) O.S.2002/2780 (Cy.264).

(**3**) O.S.2005/371 (Cy.35).

Persons, inquiries and procedures to which these Regulations apply

3. These Regulations apply in relation to-

(a) a local inquiry;

(b) any person appointed by the National Assembly to hold, or as one of the persons so appointed who are to hold, a qualifying inquiry; and

(c) any person appointed by the National Assembly to hold a qualifying procedure.

Standard daily amount for local inquiries

4. The standard daily amount prescribed pursuant to section 42(4) of the Housing and Planning Act 1986(**1**) for a local inquiry opening on or after 1 April 2007 is £722.

Standard daily amount for qualifying inquiries

5. The standard daily amount prescribed pursuant to section 303A(5) of the 1990 Act for a qualifying inquiry opening on or after 1 April 2007 is £679.

Standard daily amount for qualifying procedures

6. The standard daily amount prescribed pursuant to section 303A(5) of the 1990 Act for a qualifying procedure opening on or after 1 April 2007 is £640.

Revocations and savings

7.-(1) The Fees for Inquiries (Standard Daily Amount) (Wales) Regulations 2002(**2**) are revoked, otherwise than in relation to an inquiry to which those Regulations applied and which opened before, and remains open after, 1 April 2007.

(2) The Town and Country Planning (Costs of Inquiries etc.) (Standard Daily Amount) (Wales) Regulations 2005(**3**) are revoked, otherwise than in relation to a qualifying inquiry to which those Regulations applied and which opened before, and remains open after, 1 April 2007.

(**1**) 1986 c.63.

(**2**) S.I. 2002/2780 (W.264).

(**3**) S.I. 2005/371 (W.35).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**1**)

6 Mawrth 2007

6 March 2007

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) 1998 p.38.

(**1**) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

2007 Rhif 728 (Cy.64)

TRIBIWNLYSOEDD AC YMCHWILIADAU, CYMRU

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Rheoliadau Ymchwiliadau Lleol, Ymchwiliadau Cymwys a Gweithdrefnau Cymwys (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2007

STATUTORY INSTRUMENTS

2007 No. 728 (W.64)

TRIBUNALS AND INQUIRIES, WALES

TOWN AND COUNTRY PLANNING, WALES

The Local Inquiries, Qualifying Inquiries and Qualifying Procedures (Standard Daily Amount) (Wales) Regulations 2007

©℗ Hawlfraint y Goron 2007

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2007

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W0032/03/07 ON